

---

# Isafswm y Cynnwys Gofynnol ar Blackboard

Blackboard yw amgylchedd dysgu ar-lein Prifysgol Aberystwyth. Mae gan bob modiwl ei ardal ei hun yn Blackboard. Mae'r Cynnwys Gofynnol hwn yn sicrhau cysondeb ac yn golygu bod y wybodaeth yn fwy defnyddiol fel y bydd myfyrwyr yn gallu dod o hyd i'r cynnwys sydd ei angen arnynt. Dylai'r holl gynnwys sy'n cael ei uwchlwytho a'i greu yn Blackboard fod mor hygyrch â phosib. Gweler [Cyfarwyddyd Hygyrchedd Digidol i Staff : Hygyrchedd Digidol , Prifysgol Aberystwyth](#) am fwy o wybodaeth.

Bydd gan bob modiwl ar Blackboard y ddewislen a restrir isod ar gyfer y cwrs dan sylw. Dylai pob maes ar y ddewislen gynnwys yr wybodaeth graidd hon:

## Gwybodaeth am y Modiwl

- Amlinelliad o gynnwys, amcanion a chanlyniadau dysgu'r modiwl, gan gynnwys dolen gyswllt â chronfa ddata'r modiwl. Fe ellir darparu llawlyfr modiwl hefyd i'w lawrlwytho sy'n cynnwys y wybodaeth hon.
- Cyflwyniad i'r modiwl wedi'i recordio gan gynnwys sut i ddod o hyd i'r deunydd perthnasol yn Blackboard.
- Deunyddiau ymsefydlu er mwyn helpu myfyrwyr i ymgyswgu â gofynion y modiwl, wedi eu rhoi mewn un ffolder. Dylai'r deunyddiau hyn gynnwys gweithgareddau er mwyn i'r myfyrwyr ddod i arfer â'r offer a'r dulliau a ddefnyddir yn y modiwl. Dylid darparu cyfarwyddiadau clir i'r myfyrwyr yn dangos sut i fynd i'r afael â'r modiwl a'r gweithgareddau dysgu.
- Gwybodaeth ynglŷn â pha bryd y bydd deunyddiau ar gael i'r myfyrwyr.
- Unrhyw asesiadau risg sy'n cael eu cynnal ar gyfer y modiwl.
- Dolen gyswllt ag unrhyw wybodaeth berthnasol am iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r modiwl.

## Deunyddiau Dysgu

- Dylai'r holl ddeunyddiau dysgu fod mor hygyrch â phosibl. Os oes rhai eitemau nad ydynt yn gwbl hygyrch, eglurwch pam ac eglurwch sut mae modd i fyfyrwyr wneud cais am opsiynau mwy hygyrch. Gweler Canllawiau PA ar [Greu Deunyddiau Dysgu Hygyrch](#) i gael mwy o wybodaeth.

- Trefnu'r deunydd yn glir mewn ffolderi yn ôl wythnosau neu bynciau.
- Enwi'r deunydd yn glir ac yn gyson.
- Recordiadau Panopto. I gael canllawiau ar recordio darlithoedd byw, gweler Polisi Cipro Darlithoedd y Brifysgol. I gael canllawiau ar ddarlithoedd a recordiwyd ymlaen llaw, gweler [Sut i sicrhau bod recordiadau anghydamserol yn ennyn brwdfrydedd ac yn rhyngweithiol](#).
- Sleidiau PowerPoint, taflenni, nodiadau neu ddeunyddiau ategol eraill.
- Gosod gweithgareddau dysgu ochr yn ochr â'r deunyddiau cefnogol perthnasol (adnoddau dysgu).
- Cyfarwyddiadau i fyfyrwyr ynglŷn â defnyddio bob un o'r adnoddau.
- Pan fydd hynny'n briodol, defnyddiwch yr offer 'Adaptive Release' i ryddhau deunydd ar adeg benodol, i ddefnyddwyr penodol, neu yn seiliedig ar weithgareddau'r defnyddwyr.

## Asesu ac Adborth

- Gwybodaeth am asesu gan gynnwys meini prawf marcio.
- Sut i gael adborth.
- Pwyntiau cyflwyno aseiniadau gyda gwybodaeth lawn, gan gynnwys y dyddiad a'r amser erbyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno'r aseiniad.
- Argymhellir tracio'r ystadegau ar friffiau'r aseiniadau, gan fod hynny'n rhoi gwybod i'r staff p'un a yw'r myfyrwyr wedi edrych ar y briffiau ai peidio.
- Nodi pwy y dylid cysylltu â hwy os bydd myfyrwyr yn cael trafferth yn cyflwyno aseiniadau. Cyfeirio myfyrwyr at yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu i gael cymorth technegol ([eddysgu@aber.ac.uk](mailto:eddysgu@aber.ac.uk)).

## Cysylltiadau

- Proffiliau'r staff gan gynnwys eu swyddogaeth o ran y modiwl, eu manylion cyswllt a pha bryd mae'r aelod hwnnw o staff ar gael.
- Sut i drefnu cyfarfod (wyneb-yn-wyneb neu ar-lein).
- Pa bryd y dylai'r myfyrwyr ddisgwyl cael ymateb i ymholiad.
- Sut y gall myfyrwyr roi adborth ar y modiwl.

*"Mae'r Polisi hwn yn cael ei gynnal gan y Gwasanaethau Gwybodaeth. Fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Mai 2021 gan y Pwyllgor Gwella Academaidd a bydd yn cael ei adolygu eto ym mis Ionawr 2022. / This Policy is maintained by Information Services, was last reviewed by Academic Enhancement Committee in May 2021 and is due for review in January 2022."*

## Rhestr Ddarllen

- Cyhoeddi rhestr ddarllen wedi'i diweddarau ar Aspire

## Offer

- Dolenni cyswllt ag offer megis Fy Ngraddau a Panopto

*“Mae'r Polisi hwn yn cael ei gynnal gan y Gwasanaethau Gwybodaeth. Fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Mai 2021 gan y Pwyllgor Gwella Academaidd a bydd yn cael ei adolygu eto ym mis Ionawr 2022.  
/ This Policy is maintained by Information Services, was last reviewed by Academic Enhancement Committee in May 2021 and is due for review in January 2022.”*

## Rhestr wirio'r Cynnwys Gofynnol ar Blackboard

Eitem i'w hystyried	Ticiwch ar ôl cwblhau
<b>Hawl Defnyddio</b>	
Mae gennych ganiatâd hyfforddwr i weld y modiwlau yr ydych yn eu dysgu neu'n eu marcio	
<b>Cyhoeddiadau</b>	
Cyflwyniad / croeso wedi ei bostio yn y Cyhoeddiadau yn ogystal â chyhoeddiadau rheolaidd i roi gwybod i fyfyrwyr pan fydd deunyddiau a gweithgareddau newydd yn cael eu rhyddhau.	
<b>Gwybodaeth am y Modiwl</b>	
Amlinelliad o'r modiwl, a'r amcanion a'r canlyniadau. Gellir cynnwys y manylion hyn mewn llawlyfr modiwl ar wahân	
Cyflwyniad i'r modiwl wedi ei recordio	
Deunyddiau ymsefydlu mewn un ffolder	
Gwybodaeth am ba bryd y bydd deunyddiau ar gael i fyfyrwyr	
Asesiadau risg, a gwybodaeth iechyd a diogelwch os yw'n berthnasol	

*"Mae'r Polisi hwn yn cael ei gynnal gan y Gwasanaethau Gwybodaeth. Fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Mai 2021 gan y Pwyllgor Gwella Academaidd a bydd yn cael ei adolygu eto ym mis Ionawr 2022. / This Policy is maintained by Information Services, was last reviewed by Academic Enhancement Committee in May 2021 and is due for review in January 2022."*

Eitem i'w hystyried	Ticiwch ar ôl cwblhau
<b>Deunyddiau Dysgu</b>	
Deunydd wedi ei drefnu'n glir mewn ffolderi	
Recordiadau Panopto	
Sleidiau PowerPoint, taflenni, nodiadau neu ddeunyddiau ategol eraill.	
Y gweithgareddau dysgu wedi'u trefnu gydag adnoddau dysgu perthnasol yn cael eu darparu, ynghyd â chyfarwyddiadau am beth i'w wneud gyda'r adnoddau.	
Pan fydd yn briodol, defnyddio "Adaptive Release" i ryddhau deunydd ar amseroedd penodol, i ddefnyddwyr penodol, neu'n seiliedig ar weithgareddau'r defnyddwyr	
<b>Asesu ac Adborth</b>	
Gwybodaeth asesu gan gynnwys y meini prawf marcio	
Gwybodaeth am sut i gael adborth	
Pwyntiau cyflwyno aseiniadau gyda'r dyddiadau a'r amseroedd cyflwyno wedi eu nodi'n glir	

*"Mae'r Polisi hwn yn cael ei gynnal gan y Gwasanaethau Gwybodaeth. Fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Mai 2021 gan y Pwyllgor Gwella Academaidd a bydd yn cael ei adolygu eto ym mis Ionawr 2022. / This Policy is maintained by Information Services, was last reviewed by Academic Enhancement Committee in May 2021 and is due for review in January 2022."*

Eitem i'w hystyried	Ticiwch ar ôl cwblhau
Gwybodaeth ynglŷn â phwy y dylid cysylltu â nhw os ceir anawsterau wrth geisio cyflwyno gwaith	
Cysylltiadau	
Cynnwys proffiliau'r staff gan gynnwys eu swyddogaeth o ran y modiwl, eu manylion cyswllt, sut i drefnu cyfarfod, ac erbyn pryd y dylai'r myfyrwyr ddisgwyl cael ymateb i ymholiad	
Gwybodaeth i fyfyrwyr ynglŷn â sut i roi adborth ar y modiwl	
Rhestr Ddarllen	
Cyhoeddi rhestr ddarllen Aspire wedi'i diweddarau	

Pethau i'w gwirio	
Enwau'r ffeiliau'n ddealladwy	
Y dolenni cyswllt â ffeiliau a gwefannau'n gweithio	
Y deunydd yn cydymffurfio â <a href="#">deddfwriaeth hawlfraint</a>	

*“Mae'r Polisi hwn yn cael ei gynnal gan y Gwasanaethau Gwybodaeth. Fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Mai 2021 gan y Pwyllgor Gwella Academaidd a bydd yn cael ei adolygu eto ym mis Ionawr 2022.  
/ This Policy is maintained by Information Services, was last reviewed by Academic Enhancement Committee in May 2021 and is due for review in January 2022.”*

Mae'r wybodaeth yn gyfoes (ac unrhyw ddeunyddiau nad yw'n berthnasol neu'n gywir bellach wedi'u tynnu)	
Deunyddiau a dogfennau'r cwrs ar gael ar fformatau hygyrch  (gweler <a href="#">Creu Deunyddiau Dysgu Hygyrch</a> am fwy o wybodaeth)	

Mae rhagor o wybodaeth a chymorth ar gael:

- [Cwestiynau Cyffredin Blackboard](#)
- [Canllawiau Blackboard](#)
- Cysylltwch â'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu ([eddysgu@aber.ac.uk](mailto:eddysgu@aber.ac.uk))

*"Mae'r Polisi hwn yn cael ei gynnal gan y Gwasanaethau Gwybodaeth. Fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Mai 2021 gan y Pwyllgor Gwella Academaidd a bydd yn cael ei adolygu eto ym mis Ionawr 2022.  
/ This Policy is maintained by Information Services, was last reviewed by Academic Enhancement Committee in May 2021 and is due for review in January 2022."*